# MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

# BIL MENTER A DIWYGIO RHEOLEIDDIO

## Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

1. "Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau‟r Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio sy‟n ymwneud â‟r Banc Buddsoddi Gwyrdd (y "BBG"), i‟r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru."

## Cefndir

2. Mae'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ym mharagraff 1 uchod wedi'i gyflwyno gan Edwina Hart AC, y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, o dan Reol Sefydlog 29.6 o Reolau Sefydlog ("RhS") Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y "Cynulliad Cenedlaethol"). Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn gerbron o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod rhaid cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os bydd Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â Chymru, at ddiben sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu sy‟n cael effaith negyddol ar y cymhwysedd hwnnw

3. Cyflwynwyd y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio (y "Bil") gerbron Tŷ‟r Cyffredin ar 23 Mai 2012. Gellir gweld y Bil yn:

http://services.parliament.uk.bills/2012-13/enterpriseandregulatoryreform//documents.html

## Crynodeb o'r Bil a'i amcanion polisi

4. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau ("BIS"). Prif ddiben y Bil yw annog twf hirdymor a symleiddio rheoleiddio. Mae‟r Bil yn amcanu i:

- archwilio a chywiro‟r system tribiwnlysoedd cyflogaeth, a thrawsnewid y „dirwedd‟ o ran datrys anghydfodau;
- gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y dull o orfodi cystadlu a chystadleurwydd marchnadoedd, drwy gryfhau‟r system a‟i gwneud yn gyflymach a mwy rhagweladwy ar gyfer busnesau;
- pennu dibenion y BBG a sicrhau ei annibyniaeth;
- cryfhau‟r fframwaith ar gyfer pennu cyflogau cyfarwyddwyr, drwy gyflwyno pleidleisiau sy‟n rhwymo;
- ehangu‟r cynllun Awdurdodau Sylfaenol, lleihau‟r beichiau arolygu ar fusnesau a chryfhau‟r fframwaith cyfreithiol ar gyfer cymalau machlud ar reoleiddio;

- diddymu deddfwriaeth ddiangen, gan leihau‟r baich ar fusnesau a dinasyddion.

5. Mae‟r Bil yn ymestyn i Gymru

**Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer**

6. Y darpariaethau perthnasol yn y Bil yw‟r canlynol:

**Rhan 1: Adrannau 1- 6 –** Mae‟r Bil yn cynnig rhoi i‟r Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i ddynodi‟r BBG at ddibenion y darpariaethau yn y Bil. Byddai dynodiad y BBG wedyn yn galluogi‟r Ysgrifennydd Gwladol i roi cymorth ariannol i‟r BBG o dan ddarpariaethau‟r Bil. Ni cheir dynodi felly oni fodlonir yr amodau canlynol:

- od y BBG yn eiddo, yn gyfan gwbl, i‟r Goron;
- mai amcanion y BBG yn ei erthyglau cymdeithasu yw y caiff y BBG "ymuno, yn unig, mewn gweithgareddau sy‟n ymwneud â, neu sy‟n atodol i, neu sy‟n arwain at, wneud, hwyluso neu annog buddsoddiadau yr ystyria‟n debygol o gyfrannu at gyflawni un neu ragor o‟r dibenion gwyrdd yn y Deyrnas Unedig.";
- bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi gosod gerbron y Senedd gopi o ymgymeriad a roddwyd i‟r Banc gan yr Ysgrifennydd Gwladol, sy‟n sicrhau bod y Banc yn annibynnol ar y Llywodraeth.

7. Mae‟r Bil yn diffinio‟r dibenion gwyrdd fel a ganlyn:

- Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.
- Gwella effeithlonrwydd y modd y defnyddir adnoddau naturiol.
- Diogelu neu wella‟r amgylchedd naturiol.
- Diogelu neu wella bioamrywiaeth.
- Hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol.

8. Caiff y cymorth ariannol a ddarperir gan yr Ysgrifennydd Gwladol fod mewn unrhyw ffurf, ac yn ddarostyngedig i ba bynnag delerau ac amodau a ystyrir yn briodol gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Ni chaniateir darparu cymorth ariannol ac eithrio pan fo cyfranddaliad y Goron yn y BBG yn fwy na hanner y cyfalaf cyfranddaliadau dyroddedig. Mae‟r dynodiad hefyd yn achosi rhai gofynion adrodd a chyfrifyddu.

9. Ym marn Llywodraeth Cymru, felly, mae‟r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol o dan Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mewn perthynas â‟r pynciau Datblygu Economaidd ym mharagraff 4 a‟r Amgylchedd ym mharagraff 6.

## Y cyd-destun polisi

10. Bwriad Llywodraeth y DU yw sefydlu‟r banc buddsoddi cyntaf yn y byd a fydd yn ymroi i‟r unig dasg o wyrddio‟r economi, gan ategu polisïau gwyrdd eraill er mwyn cyflymu‟r broses o fuddsoddi cyfalaf ychwanegol mewn seilwaith gwyrdd. Bydd y trawsnewid hwn i economi werdd yn cynnig cyfleoedd sylweddol ar gyfer twf, gartref a thramor, i gwmnïau sydd â‟u canolfannau yn y DU. Bydd yn galw am fuddsoddi ar lefel nas gwelwyd o‟r blaen yn y sectorau gwyrdd allweddol – amcangyfrifir y bydd angen £200 biliwn ar gyfer y system ynni yn unig dros y cyfnod hyd at 2020. Gyda chyfalaf o £3 biliwn, bydd y BBG yn chwarae rhan hollbwysig drwy ymateb i fethiannau yn y farchnad sy‟n effeithio ar brosiectau seilwaith gwyrdd, er mwyn ysgogi cynnydd mewn buddsoddi preifat.

11.. Un o fentrau polisi‟r DU yw‟r BBG, a gynlluniwyd er mwyn cyrraedd amcanion amgylcheddol a hyrwyddo twf economaidd. Mae‟n cysylltu â mentrau eraill gan y DU, gan gynnwys creu Cynllun Seilwaith Cenedlaethol, diwygio‟r farchnad drydan, newidiadau yn yr ardoll newid hinsawdd, cyflwyno cymhelliant gwres adnewyddadwy, adolygu‟r polisi gwastraff ac adolygu swyddogaethau Ofgem ac Ofwat.

## Manteision defnyddio'r Bil hwn

12. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae‟n briodol ystyried a chymeradwyo‟r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan Senedd y DU, gan ei fod yn cynrychioli‟r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur i alluogi cymhwyso‟r darpariaethau hyn i Gymru. Bydd hefyd yn sicrhau cysondeb yn y modd y gweithredir y Banc Buddsoddi Gwyrdd ledled Cymru a Lloegr, tra‟n rhoi sylw i ddyheadau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol am drefniadau ariannol i gynorthwyo‟r economi.

## Goblygiadau ariannol

12. Ni ragwelir unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru na ellir eu diwallu fel rhan o ymrwymiadau presennol, o ganlyniad i weithredu yn ddiweddarach ddarpariaethau perthnasol y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio. Bydd Llywodraeth y DU yn darparu‟r cyllid dechreuol ar gyfer y BBG, a disgwylir i‟w ymgyrch i godi arian o‟r sector preifat yn Llundain ddenu buddsoddiadau sylweddol gan gronfeydd pensiwn, cronfeydd sofran tramor, cwmnïau ynni a banciau. O ganlyniad, rhagwelir y bydd y BBG yn cyllido‟i hunan drwy godi ffioedd rheoli cronfeydd ar y buddsoddiadau a ddenir ganddo. Nid yw‟r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau yn disgwyl unrhyw gyfraniad gan Lywodraeth Cymru.

**Edwina Hart AC**
**Y Gweinidog Busnes, Menter Technoleg a Gwyddoniaeth.**
**Gorffennaf 2012**